

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Orthodontig Smile Solution
Ltd Cas-gwent, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 6 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 6 Ionawr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis Orthodontig Smile Solution Ltd Cas-gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 6 Hydref 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Orthodontig Smile Solution Ltd Cas-gwent yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod “cynnig rhagweithiol” ar gyfer y Gymraeg ar gael i gleifion a all fod am gyfathrebu yn Gymraeg, cyfieithu gwybodaeth am y practis a phosteri i'r Gymraeg a'u harddangos er mwyn sicrhau y gall cleifion gael gafael ar wybodaeth yn eu dewis iaith
- Defnyddio'r wybodaeth o adborth gan gleifion i lunio bwrdd gwybodaeth 'dywedo chi, gwnaethom ni'.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfa a oedd yn gwarchod eu hurddas.
- Roedd cleifion a oedd yn bryderus a / neu gleifion awtistig yn cael amser ychwanegol a chymorth i wneud penderfyniadau am eu triniaeth.
- Roedd cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad hwn, yn y rhan fwyaf o feysydd, yn seiliedig ar adborth, ymatebion a sylwadau.

Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y practis mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau yr oedd wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y mesurau atal a rheini heintiau yn dda, ac roedd gan y practis gyfarpar diogelu personol digonol ar waith.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau Aseiad Risg Tân wedi'i ddiweddarau ac aseiad risg iechyd a diogelwch
- Ymdrin â'r dirywiad yn sêl y llawr yn y ddeintyddfa
- Rheoli'r broses o storio cyfarpar glanhau yn effeithiol er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd mesurau priodol ar waith i fonitro a phrofi cyfarpar diogelwch tân
- Roedd cyfraddau cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu, lefelau a gweithdrefnau diogelu o safon uchel
- Roedd y cyfraddau hyfforddi staff mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau yn uchel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn drefnus a bod polisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd dogfennaeth a oedd yn ymwneud â gwybodaeth am staff yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen i sicrhau bod y staff yn addas i weithio.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd, ac roedd cofnodion o'r cyfarfodydd hynny. Gwelsom fod arfarniadau yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn a bod y staff yn cael eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol pellach i ddatblygu eu gyrfa.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau adroddiad blynyddol yn ymwneud ag asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gydymffurfio â rheoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio ar gyfer pob aelod newydd o staff yn cael eu dilyn mewn perthynas â chasglu geirdaon

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 24 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers rhwng un a dwy flynedd. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Bydd yr orthodontydd bob amser yn siarad â mi am y cynnydd. Mae'n braf cael y wybodaeth ddiweddaraf"

"Gwasanaeth gwych, rwy'n hapus iawn â'r triniaethau"

"Mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn barod i helpu"

"Mae'r staff yn hyfryd"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

"Ddim mor hir rhwng apwyntiadau"

"Byddai parcio addas ger y ddeintyddfa yn fanteisiol"

"Mae'n wych, does gen i ddim awgrymiadau"

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn diogelu yn erbyn y risg sy'n gysylltiedig â'r feirws, gwelsom fod peiriannau hylif diheintio alcohol wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'r cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom y staff yn cadarnhau'r manylion hyn pan oedd

cleifion yn cyrraedd y practis.

Gwelsom bosteri ar gyfer cleifion ar sut i wella eu hiechyd deintyddol. Roedd y wybodaeth hon yn Saesneg.

Gwelsom arwydd 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pob un ond un o'r 24 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom aelodau'r tîm yn trin eu cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Roedd y staff yn gyfeillgar, roedd y drysau wedi cau pan oedd y ddeintyddfa'n cael ei defnyddio a chawsom sicrwydd bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal.

Gwelsom fod defnydd o'r ystafell aros wedi'i gyfyngu i'r claf nesaf a oedd yn aros i gael triniaeth a bod yr amseroedd aros yn fyr. Nid oedd y ffôn yn ardal y dderbynfa yn derbyn negeseuon llais a gofynnwyd i'r cleifion e-bostio neu ffonio'n ôl yn ystod oriau agor.

Nododd **pob un** o'r cleifion a atebodd y cwestiwn fod staff y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Clywsom esboniadau priodol bod triniaeth a chynlluniau'n cael eu rhannu â chleifion a'u gwarcheidwaid. Nododd ugain o'r cleifion fod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael pan oedd angen triniaeth a dywedodd pob un o'r 24 o gleifion fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall.

Gwelwyd bod y naw egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu cynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion sydd ar gael yn yr ardal aros. Mae'r naw egwyddor yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac maent yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn i gleifion nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Y bwrdd iechyd lleol oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys taflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 er nad oedd y wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg. Gwelsom

hefyd god moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, polisi cwynion a phryderon ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol arall i gleifion.

Gwelsom fod gwybodaeth am gostau triniaeth orthodontig wedi'i nodi yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn yr ystafell aros.

Gwelsom fod y practis wedi arddangos fersiynau Cymraeg a Saesneg o dystysgrifau cofrestru AGIC.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael y wybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Gwelsom mai amseroedd aros byr oedd ar gyfer apwyntiadau i gleifion yn y practis a dywedwyd wrthym fod apwyntiadau fel arfer yn rhedeg ar amser. Dywedwyd wrthym y byddai'r derbynnydd yn sôn wrth y cleifion am amseroedd aros ac unrhyw resymau dros oedi. Cawsom ein hysbysu y gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu'n bersonol.

Dywedodd pob claf ond un ei fod yn gallu trefnu apwyntiad pan fo angen. Fodd bynnag, nododd 16 o'r 24 o gleifion a atebodd nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol 'y tu allan i oriau' pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth y tu allan i oriau ar gael i gleifion drwy wefan Smile Solution Ltd neu ar y neges llais a recordiwyd ar y rhif ffôn y tu allan i oriau.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom fod rhai cyfyngiadau oherwydd COVID-19 ar waith o hyd, ac mai dim ond cleifion ag apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw oedd yn cael mynd i mewn i'r practis.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom dystiolaeth bod opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod gofyn i bob claf gydsynio i driniaeth.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm clinigol wedi holi ynghylch ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth gan gadarnhau ei fod yn cael ei gynnwys gymaint ag y bo modd, gymaint ag yr oedd yn dymuno, mewn penderfyniadau am ei driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Gwnaethom adolygu polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y practis. Roedd hyn yn dangos bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb. Cafodd y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddarau'n ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth blynyddol o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd dolen sain ar gael yn y ddeintyddfa ar gyfer cleifion a staff oedd yn drwm eu clyw.

Disgrifiodd yr unigolyn cyfrifol bod cleifion awtistig yn cael amser ychwanegol i feddwl am benderfyniadau am driniaeth a hyd yn oed i roi cynnig ar gyfarpar cyn eu triniaeth er mwyn lleihau unrhyw ofid posibl. Dywedwyd wrthym fod anghenion y cleifion yn cael eu hystyried ar sail unigol.

Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr cyntaf a dim ond drwy ddringo grisiau yr oedd modd ei gyrraedd. Nodwyd hyn ar y daflen wybodaeth i gleifion a dywedwyd wrthym fod cleifion nad oeddent yn gallu cyrraedd y practis ar y llawr cyntaf yn cael eu hannog i ffonio'r practis fel y gellid gwneud trefniadau amgen. Roedd gan y practis gynlluniau i adleoli gyda'r bwriad o wella hygyrchedd i gleifion ag anawsterau symudedd.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn gofyn i bob claf fel mater o drefn sut yr hoffai gael ei gyfarch. Byddai pob claf yn cael ei gyfarch gan ddefnyddio ei enw dewisol.

Nododd pob ymatebydd i holiadur AGIC ei fod o'r farn y gallai gael gafael ar y gofal iechyd priodol ar yr adeg briodol ni waeth a oedd ganddo unrhyw nodweddion gwarchodedig. Nododd y cleifion nad oeddent yn wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gyrraedd y practis deintyddol na'i ddefnyddio.

Gwranddo a dysgu o adborth

Cawsom ein hysbysu bod y practis yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu safbwyntiau ac adborth cleifion ac y byddai'n rhoi holiaduron i gleifion gyflawni hyn. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r cleifion yn cael eu hannog i adael adolygiad ar Google gan ddefnyddio cod Ymateb Cyflym adolygiadau Google ar boster yn yr ystafell aros. Gwelsom fod adborth o adolygiadau cleifion yn cael ei rannu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd tîm lle'r oedd cofnodion yn cael eu cymryd a bod themâu'n cael eu monitro.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y practis yn arddangos gwybodaeth am welliannau a wnaed oherwydd awgrymiadau ac adborth cleifion, fel bwrdd neu sgrin wybodaeth 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Roedd y practis wedi cynnwys copi o'i weithdrefn gwyno yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn yr ystafell aros. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y practis ac roedd wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben. Roedd y polisi cwyno yn cynnwys gwybodaeth briodol am derfynau amser a'r broses ar gyfer uwchgyfeirio cwynion. Gwelsom gofnod cwynion a oedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a lle'r oedd cynnydd, themâu a datrysiadau'n cael eu monitro. Gwelsom dystiolaeth o gamau gweithredu ac ymatebion manwl er mwyn datrys pryderon cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y deintyddfa, yr ystafell ddihalogi ac ardal y dderbynfa o safon dda. Roedd y safle'n fach ac yn daclus.

Er bod yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, gwnaethom nodi bod sêl y llawr yn y ddeintyddfa wedi dirywio dros amser ac rydym yn argymhell bod y practis yn mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau arferion glanhau effeithlon ac effeithiol.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Gwelsom y dogfennau asesiad risg tân ac asesiad iechyd a diogelwch a gynhaliwyd gan ddarparwr allanol ac wedi'u dyddio mis Awst 2021. Roedd y rhain yn cynnwys terfynau amser a chmau a gwblhawyd. Roedd angen ailadrodd y ddau asesiad er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn ddiogel i staff a chleifion.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau priodol i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol. Yn ogystal, roedd amserlen lanhau ar waith a oedd yn cefnogi arferion glanhau effeithiol. Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi pryd mae'r awtoclaf yn dechrau ac roedd gwiriadau diogelwch diwedd dydd yn cael eu cynnal.

Gwnaethom nodi nad oedd y mopiau yn y cwpwrdd glanhau yn cael eu hongian i sychu ar wahân a bod risg o groeshalogi ardaloedd clinigol ac anghlinigol. Roedd angen i fopiau a bwcedi fod ar wahân a chael eu rheoli'n effeithiol.

Roedd gan y practis ardal benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleuster yn fach, yn lân ac yn drefnus. Roedd yn cynnwys cyfarpar addas ac roedd yn daclus.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Gwelsom o'r cofnodion hyfforddiant fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol yn ddiweddar. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan y Cyngor Dadebru'r DU. Gwelsom fod padiau oedolion a phediatrig ar gael ar gyfer y diffibriliwr.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu mesur yn rheolaidd ar y safle. Roedd meddyginiaethau brys sy'n sensitif i dymheredd yn cael eu cadw mewn oergell ac roedd y cofnodion priodol yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel. Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau priodol y byddent yn eu dilyn pe bai argyfwng.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, roeddent yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi. Yr unigolyn cyfrifol oedd yr arweinydd diogelu ac roedd yn gallu trafod y polisiâu a'r gweithdrefnau â ni. Roedd staff yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'r gweithdrefnau perthnasol a nodwyd ganddynt y byddai unrhyw bryderon yn cael eu cyflwyno i'r arweinydd diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn ar lefel tri gan y clinigwyr a chwblhawyd hyfforddiant diogelu lefel dau gan bob aelod arall o'r staff.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogaeth a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a gwneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Pan wnaethom archwilio, gwelsom fod geirdaon rheolwr y practis a'r staff derbynfa ar goll.

Cadarnhawyd gennym fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfa er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r cyfarpar. Ystyriwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Gwelsom fod digon o offer deintyddol a'u bod mewn cyflwr da.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau o belydrau-X yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Roedd trefniadau diogel ar waith mewn perthynas â'r amgylchedd, gwaith cynnal a chadw a phrofi cyfarpar pelydr-X a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn natganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom dystiolaeth y byddai'r staff yn cael arweiniad a chyngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen ac y byddent yn defnyddio'r arweiniad a'r cyngor hwn i ddiweddarau polisiau'r practis.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ac roedd tystiolaeth ei fod yn ymdrin â'r materion a gododd. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau eraill hefyd fel yr archwiliad o radiograffau a'r archwiliad blynyddol o gofnodion cleifion.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel ar weinyddion wedi'u lleoli yn y cwmwl. Roedd cofnodion deintyddol yn cael eu cadw ar system wedi'i diogelu â chyfrinair yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol.

Roedd y practis yn rheoli ac yn diogelu gwybodaeth yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018. Gwelsom fod ffolderi personol y staff yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet ffeilio metel wedi'i gloi.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol da, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn benodol i'r unigolyn ac roeddent yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Roedd gan y practis bolisi cydsyniad ac roedd yn cydymffurfio â'r polisi hwnnw.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis a oedd newydd gael ei benodi, oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelwyd bod y ddau yn ymrwymedig i'w rolau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd pob aelod o'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Roedd tystiolaeth yn cael ei chadw o gyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom enghreifftiau o gofnodion o'r cyfarfodydd hyn. Roedd y cofnodion yn dangos bod y materion a'r camau gweithredu a oedd yn cael eu codi yn briodol ac yn rhagweithiol. Roedd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cadw mewn ffolder a oedd yn hygyrch i bob aelod o'r staff.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnio priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi cwblhau'r adroddiad perthnasol yn unol â rheoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, mewn perthynas ag asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan gynnwys datganiad blynyddol.

Y Gweithlu

Disgrifiwyd y weithdrefn ar gyfer recriwtio staff newydd a gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol ynghyd â chymwyseddau clinigol. Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Cawsom ein hysbysu gan reolwr y practis fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio ar adegau a bod archwiliadau perthnasol o staff asiantaeth yn cael eu cynnal gan yr asiantaeth ddeintyddol a bod cadarnhad yn cael ei roi i'r rheolwr cofrestredig.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Gwnaethom edrych ar dystysgrifau hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff ac roedd lefelau cydymffurfiaeth cyffredinol yn 100%. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol yn ddiweddar. Roedd matrices hyfforddiant ar waith a oedd yn nodi pryd roedd angen adnewyddu cyrsiau hyfforddiant gorfodol. Cawsom ein hysbysu hefyd fod cyrsiau byr ychwanegol ar gael i staff drwy Dentex.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Gwasanaeth: Smile Solution Ltd Cas-gwent

Dyddiad yr arolygiad: 6 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Smile Solution Ltd Cas-gwent

Dyddiad yr arolygiad: 6 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw welliannau ar unwaith yn ofynnol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Smile Solution Ltd, Cas-gwent

Dyddiad yr arolygiad: 6 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod "cynnig rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg ar gael i sicrhau bod y cleifion hynny sydd am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Rhaid i hyn gynnwys cyfieithu'r daflen wybodaeth i gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (PDR 2017), rheoliad 13 (1) ac 13 (9) (a). Safon 4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoleiddio.	Mae posteri wedi cael eu harchebu ac rydym wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys ar ein Gwefan hefyd.	Jennifer Collett Rheolwr y Practis	21 Ionawr 2023
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno arddangosfa 'dywedoch chi, gwnaethom ni' mewn ardal sy'n hygyrch i'r cleifion er mwyn	PDR 2017, rheoliad 16 (1)(a) a (2)(b)(ii) (d)(ii)	Mae posteri bellach wedi'u harddangos gyda ffurflenni i'r cleifion eu cwblhau gyda blwch postio yn y dderbynfa i'w derbyn.	Jennifer Collett Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau 25 Tachwedd 2022

annog awgrymiadau gan gleifion i wella'r practis ymhellach.	Safon 6.3 Gwrandao a dysgu o adborth			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol / iechyd a diogelwch llawn ynghyd ag asesiad risg tân yn cael eu cwblhau a'u diweddarau'n rheolaidd pan gaiff camau gweithredu eu cwblhau	PDR 2017, rheoliad 22 Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Rydym wedi trefnu hwn ddwywaith ond bu'n rhaid i ni ei aildrefnu ar gyfer ymweliad y mis hwn. Bydd y cwmni'n ymweld ar 19 Rhagfyr ac rwy'n aros am ateb i'm cais iddo gael ei gwblhau cyn 19 Rhagfyr.	Jennifer Collett Rheolwr y Practis	19 Rhagfyr 2022, fan bellaf
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod lloriau mewn ardaloedd clinigol yn cael eu selio'n ddigonol i sicrhau y gellir eu glanhau'n effeithiol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (6)(a-b) a Rheoliad 13(5) (a-b)	Wedi'i gwblhau	Jennifer Collett Rheolwr y Practis	27 Hydref 2022
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff mopiau a bwcedi eu rheoli a'u storio'n effeithiol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (6)(a-b) a	Mae bracedi bellach wedi'u gosod yng nghwprdd y glanhawyr i alluogi'r mopiau i sychu a'u hongian ben i waered. Caiff y bwcedi eu glanhau a'u storio ben i waered.	Jennifer Collett Rheolwr y Practis	27 Hydref 2022

	Rheoliad 13(5) (a-b)			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio adroddiad blynyddol yn ymwneud â'r broses o asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, rheoliad 16	Caiff hwn ei ysgrifennu a'i gyflwyno yn unol â'r rheoliad.	Jennifer Collett Rheolwr y Practis	21.12.22
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod geirdaon yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod newydd o staff	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Rheoliad 7(1) Gweithlu	Mae hyn yn rhan o bolisi recriwtio Dentex Group, a chaiff ei fonitro a'i adolygu yn dilyn pob penodiad.	Jennifer Collett	21.12.22

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Miss Jennifer Collett

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 5 Rhagfyr 2022